CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**
*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

## SWYDDOGION

*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon*
*(Caernarfon 3593)*

**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## YN EISIAU

*Proinsias Macana.* **Branwen Daughter of Llŷr.**
*Kenneth Jackson.* **The International Popular Tale and Early Welsh Tradition.**
*Guto Rhys, 123 Stryd Bedford, Y Rhâth, Caerdydd. Ffôn: (0222) 464415.*

**Chwerwder yn y Ffynhonnau. Ceredigion** *(Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Ceredigion); Cyfrol 1, Rhifau 2, 3 a 4; Cyfrol 2, Rhifau 2, 3, a 4.*
*Gwyn Thomas, 40 Pinner View, Harrow, Middlesex HA1 4QD. Ffôn: 01-427 2991.*

*Y llyfrau hyn gan Dr John Gwilym Jones:*
**Y Brodyr.** *Dramâu Cyfres y Brython, rhif 47D; Lerpwl, d.d.*
**Y Tad a'r Mab.** *Gwasg y Glêr, Aberystwyth, 1963; neu Gwasg Gomer, 1970.*
**Pedair Drama.** *Gwasg Gee, 1971.*
**William Williams Pantycelyn.** *Cyfres Gŵyl Ddewi Gwasg Prifysgol Cymru, 1969.*
*M. Morgan-Finch, Gwynfryn, 12 Gospel Hall Terr., Y Gadlys, Aberdâr, Morgannwg Ganol CF44 8DW.*

## AR WERTH

**Hanes Llenyddiaeth Gymreig o 1650 i 1850.** *Charles Ashton; hefyd* **Cynnyrch Eisteddfod Genedlaethol 1891 — £10.**
**Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Caernarfon 1886.** *Gol. E. Vincent Evans — £7.50. Cludiant yn ychwanegol.*
*J. Jones, 10 Heol Neville, Caerdydd.*

# Testament Salesbury Arall

## Gan Charles Parry

YN RHIFYNNAU 41 (Awst 1990) a 42 (Nadolig 1990) o'r *Casglwr* mae W. Alun Mathias yn ysgrifennu gyda brwdfrydedd heintus am ei ymdrechion i lunio rhestr o bob copi sydd ar glawr o'r argraffiad cyntaf (1567) o Destament Salesbury. Braf felly cael ychwanegu copi arall at ei restr — un ar dir mawr cyfandir Ewrop yn hytrach nac yn ynysoedd Prydain a Gogledd America.

Yn Llyfrgell Prifysgol Göttingen (y Niedersächsische Staats- und Universitätsbibliothek) yn yr Almaen y mae'r copi hwn. Agorodd y brifysgol hon ei drysau gyntaf i fyfyrwyr yn 1737. Bron o'r dechrau bu'n bolisi gan ei llyfrgell i bwrcasu llyfrau cynnar a llyfrau'r dydd o sawl un o wledydd Ewrop gan gynnwys Prydain.

Yn rhyfedd iawn araf dros ben fu ysgolheigion a llyfryddwyr o'r ynysoedd hyn i sylweddoli fod casgliad amheuthun o lyfrau cynnar Prydeinig yn Göttingen yn 1979 cyn i gynlluniau gael eu paratoi gan Almaenwyr a Saeson i fynd ati i'w gatalogio. Bellach gwyddys ei fod yn cynnwys tua 16000 o weithiau wedi eu hargraffu ym Mhrydain cyn 1801.

Ychwanegir at werth y casgliad oherwydd i gofnodion manwl ynglŷn â derbyn y llyfrau oroesi o'r cyfnod cynharaf yn archif y Llyfrgell. Gellir chwilota yno i ddarganfod pryd ac o ble y derbyniwyd cyfrol neu gyfrolau.

Yn 1987 cyhoeddwyd y rhan gyntaf o gatalog llyfrau Prydeinig Prifysgol Göttingen. Mae'n rhestru'r gweithiau a ymddangosodd cyn 1701. Gwnaed y gwaith catalogio gan Graham Jefcoate a Karen Kloth a'r golygydd oedd Bernhard Fabian. Cyhoeddwyd gan Olms-Weidman, Hildesheim.

Daeth catalog llyfrau 1701–1800 o'r wasg yn 1988. Yr un flwyddyn cafwyd cyfrol o fynegeion. Ni welais y cyfrolau hyn. Bwriedir cyhoeddi un gyfrol arall i gwblhau'r catalog. Bydd hon yn cynnwys y cofnodion derbyn y cyfeiriwyd atynt uchod.

Yn y rhan gyntaf o'r catalog (llyfrau cyn 1701) yr ymddengys Testament 1567. Ceir hefyd yn Göttingen gopïau o 'Cambrobytannicae . . .' Sion Dafydd Rhys (1592), Beibl Cymraeg 1677–78, Historiae Brytannicae Defensio John Price (1573), a Gramadeg a Geiriadur John Davies Mallwyd (1621 a 1632).

Pan gyhoeddir cyfrol olaf y catalog, cawn weld pryd ac o ble y daeth y gweithiau Cymreig hyn i Göttingen. Mae'n ddigon posib' iddynt gael eu prynu yn y ddeunawfed ganrif.

Gellir darllen am Lyfrgell Pryfysgol Göttingen a'i llyfrau cynnar o Brydain mewn cylchgronau megis 'Factotum' a 'Newsletter' Grŵp Llyfrau Prin y 'Library Association'. Diau hefyd fod digonedd o ddefnydd ar y pwnc i'w gael mewn Almaeneg.

*O.N. — A minnau wedi cwblhau'r nodyn hwn, daeth y wybodaeth o'r Almaen i'r copi dan sylw o Destament Salesbury gael ei brynu ar gyfer y Llyfrgell yn 1749 oddi wrth Thomas Osborne, llyfrwerthwr adnabyddus yn Llundain. Ymddengys y copi yn ei gatalog am 1749 yn ôl cofnodion y Llyfrgell. Prynwyd llawer o lyfrau oddi wrth Thomas Osborne. Goroesodd cryn nifer o'i gatalogau. Ceir copïau o gatalog helaeth a gyhoeddwyd ganddo yn 1749 yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, a Llyfrgell Prifysgol Lerpwl.*

# Pa John Hughes — ac o ba le?

## At y Golygydd

TYBED pwy oedd John Hughes o Aberbechan, Plwy Meifod, sir Drefaldwyn? O ran hynny, ble mae — neu oedd Aberbechan?

Nid yw'r *Bywgraffiadur* yn sôn amdano nac *Eminent Welshmen* nac unrhyw fywgraffiadur arall y digwyddais daro arno.

Yr oedd yn awdur cyfrol fechan (*gw. uchod: 84tt., yn mesur 6 × 10.5cm*) o benillion sydd wedi eu bwriadu, o leiaf, i fod yn 'hymnau'. Ail argraffiad yw y rhan o'r casgliad a elwir yn 'Hymnau Athrawiaethol ac Ymarferol' ond ni wn pryd y cyhoeddwyd hwy gyntaf.

Dosberthir y cynnwys fel hyn: 'Caniadau Efengylaidd i Blant' — 30; 'Hymnau Athrawiaethol' — 18; 'Hymnau Ymarferol' — 9; a 'Hymnau am Lwyddiant yr Efengyl' — 7; cyfanswm o 64. Gwasg Saunderson, y Bala a gyhoeddodd yr argraffiad cyfunol hwn yn 1826 a gwerthid ef am rôt y copi, 'heb ei rwymo'.

Hyd y gwn, ni chynhwysir dim un o 'hymnau' John Hughes yn ein casgliadau enwadol ni heddiw. Nid syn hynny; pedestrig ac ystrydebol iawn yw ei ddawn. Lled drosiadau yw'r emynau i blant, allan o waith Isaac Watts a thraethiadol ryddieithol yw dull y penillion:

**Gwaith mawr ysprydol, sanctaidd yw,**
**Addoli a moliannu Duw:**
**I'r Tri yn Un y perthyn clod,**
**Tra byddo'r nefoedd fawr yn bod.**

Go anodd, dybiwn i, fyddai i blentyn ddeall yr ymresymiad hwn a gynigir iddo (Hymn 33):

**O'r dillad a wnaethpwyd**
**I guddio gwarth mawr**
**Ein hynaf rieni**
**Balchio sy'n awr;**
**Ni bu arfer gisgoedd**
**Nes darfu, gwir yw,**
**Ein mam Efa bechu,**
**I dynnu gwg Duw.**

Byw'n ddibechu yn noethlymun groen mewn hinsawdd ogleddol yn y gaeaf? Tyff!

Gan ddilyn Williams Pantycelyn, bu mynd ar gyhoeddi casgliadau o 'hymnau' fel yr uchod gan lawer un heb fod ganddo na dawn nac athrylith y 'perganiedydd'. Gellid, ar y gorau, galw eu cynnyrch yn emynau gwerinaidd ac ar eu gwaethaf, yn gocoswaith. Erbyn hyn, maent yn gwbl angofiedig. Llythrennol ysgrythurol gydag ambell fflach o ddoniolwch neu odrwydd cwbl anfwriadol yw llawer ohonynt; fe wnaeth Brutus barodi arnynt yn ei 'Wil Brydydd y Coed'.

Ond weithiau, ceir eco o'r hen benillion gan rai, hwn, er enghraifft gan Dr George Lewis, Llanuwchllyn:

**Byd i deithwyr fyned drwyddo,**
**Byd a'i ddull yn myned heibio;**
**Byd disylwedd megis cysgod**
**Byd o wagedd, byd yn darfod.**

Tywyll a dismol iawn yw hymnau Lewis a rhai eraill o'r un oes a'r un byd ag ef; adlewyrchiad ydynt o gyflwr isel, tlawd a darostyngedig bywyd y werin gyffredin yn ystod yr un cyfnod, yn arbennig o 1815 a diwedd y rhyfeloedd Napoleonig yn Ewrop ymlaen. Emynau byd 'Cwm Eithin'.

Ond ar y cyfan, ni cheir y digalondid hwn ym mhrydyddiaeth John Hughes o Feifod, pwy bynnag ydoedd. Tybed beth oedd ei hanes?

D. TECWYN LLOYD

## AR WERTH

**'Gwybod' — Llyfr y Bachgen a'r Eneth,** *dan ofal E. Curig Davies a Tom Parry. Rhannau 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12. Hughes a'i Fab, 1939 — £10.*
*John Roberts, Erw Wen, Groeslon, Caernarfon. Ffôn: Llanwnda 830505.*

**Bach:**
**St. Matthews Passion.** *4 Tonic Solffa, 1 Hen Nodiant;*
**Jesu Priceless Treasure.** *2 SF;*
**Christmas Oratorio.** *2 HN;*
**Brahms: Requiem.** *4 SF, 1HN;*
**Coleridge-Taylor: Song of Hiawatha.** *3 SF;*
**Dvorak: Stabat Mater.** *3 SF, 1 HN;*
**Handel:**
**Samson.** *1 SF, 1HN;*
**Judas Maccabeus.** *3 SF;*
**Haydn: Creation.** *4 SF, 1 HN;*
**Mendelssohn:**
**Elijah.** *3 SF;*
**Hymn of Praise.** *2 SF, 1 HN;*
**Mozart: Requiem Mass.** *2 SF;*
**G. F. Roof: Belshazzar's Feast.** *2 SF.*
*Pris i'w drafod.*
*Mr G. E. Jones, Dolmynach, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3UB. Ffôn: (0766) 830297.*